Uned Tystiolaeth Strategol
Strategic Evidence Unit

Codi hyder yn sail tystiolaeth ni
Building confidence in our evidence base

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu Camau Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym meysydd Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

## Cymrodoriaeth Polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd cynigion am rôl Cymrodoriaeth i weithio ym meysydd polisi Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i gefnogi swyddogion polisi i ddatblygu cynllun gweithredu i ymdrin â materion newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig. Mae bylchau tystiolaeth mawr mewn perthynas â phrofiad pobl o leiafrifoedd ethnig o hiliaeth mewn mannau newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig, eu huchelgeisiau a'u barn am yr hyn a fyddai'n gwneud y rhan hon o fywyd yn fwy cynhwysol. Bydd gwaith y gymrodoriaeth hon yn gweithio gyda thimau i ddeall y ffordd mae hiliaeth strwythurol yn gynhenid mewn llawer o'n harferion bob dydd wrth gasglu tystiolaeth a sut i newid y rhain i glywed lleisiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd y rôl yn gweithio gyda thimau polisi hefyd lle mae tystiolaeth sylweddol eisoes ar gael drwy ein gwaith ein hunain ac yn ehangach i ddeall yr agweddau y mae angen i dimau polisi eu hystyried er mwyn gwneud eu gwaith o ddatblygu a chyflwyno polisi yn fwy cynhwysol.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliaeth ym mis Mehefin 2022[1]. Ni chynhwyswyd newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig yn yr ymchwil dystiolaeth wreiddiol ar gyfer fersiwn gyntaf y cynllun. Mae rhaglen dystiolaeth o waith ar y gweill, gan gwmpasu materion newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig; byddai'r Gymrodoriaeth hon yn rhan o'r rhaglen i gefnogi timau polisi i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ymhellach a chefnogi meddwl wrth ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth sy'n cwmpasu'r meysydd polisi hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth wedi datblygu proses ar gyfer cyflwyno cynllun gweithredu wedi'i gyd-gynhyrchu, bydd y Gymrodoriaeth hon yn cynnig llais dibynadwy, gan gynghori swyddogion Llywodraeth Cymru wrth iddynt symud drwy'r broses.

Bydd y rôl hon yn Gymrodoriaeth strategol, yn gweithio ar draws yr adran, yn cynghori cydweithwyr polisi a thystiolaeth ar amrywiaeth o feysydd o ran Gwrth-hiliaeth, yn dibynnu ar y prosiectau y gall y cymrawd fod yn eu cynghori ar dechnegau academaidd, trylwyredd a dulliau newydd o gasglu tystiolaeth neu gynghori ar y syniadau presennol, iaith a darparu synthesis tystiolaeth ar lawer o brosiectau amrywiol.

Bydd y swydd hon yn gweithio mewn tîm tystiolaeth amlddisgyblaethol sy'n cefnogi rhaglen ehangach i gyfrannu at gyflawni penderfyniadau cadarn ar sail tystiolaeth o fewn amgylchedd Cymru. Mae'r tîm yn gweithio drwy ymchwil i hyrwyddo cydweithio rhwng polisi, y byd academaidd, rhanddeiliaid a dinasyddion i gyflawni canlyniadau polisi a ddymunir.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu cyfrannu eu harbenigedd gwybodaeth academaidd, ynghyd â gwahanol brofiadau bywyd, i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Byddant yn gallu ffynnu mewn timau cydweithredol hefyd a fydd yn helpu i newid y ffordd rydym yn meddwl. Rydym yn chwilio am geisiadau gan ymgeiswyr amrywiol a all gyfrannu sgiliau, dealltwriaeth a safbwyntiau newydd i'n gwaith.

[1] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol l LLYW.CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am gynigion gan Ymchwilwyr Ôl-ddoethuriaeth i Uwch Ymchwilwyr, ac mae'r rôl yn agored i ymgeiswyr greu eu cynnig eu hunain ar gyfer sut y gallai lleoliad weithredu. Gall Llywodraeth Cymru gefnogi hon fel rôl ran-amser neu lawn amser.

Rhaid i bob ymgeisydd gael ei gyflogi gan sefydliad sy'n lletya cymwys gydol y Gymrodoriaeth i dderbyn cyllid. Mae sefydliadau cymwys sy'n lletya yn cynnwys Sefydliadau Addysg Uwch y DU, Sefydliadau Ymchwil Annibynnol cymwys neu Sefydliadau Ymchwil y Sector Cyhoeddus (PSREs).

| **MANYLION Y SEFYDLIAD SY'N LLETYA AC AMLINELLIAD O'R RÔL A GYNIGIR:** | |
|---|---|
| **Enw'r sefydliad** | Llywodraeth Cymru - yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| **Disgrifiad rôl** | Cymrodoriaeth Polisi Datblygu Camau Gweithredu Gwrth-hiliaeth ym meysydd Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| **Dyddiad dechrau arfaethedig** | 1 Rhagfyr 2023 |
| **Hyd y lleoliad** | 12-18 mis |
| **Cyllid** | Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sy'n gyfwerth â chyflog ymgeisydd gyda'u sefydliad academaidd. Mae hyn yn amodol ar gytuno ar y costau a gyflwynwyd.  Mae uchafswm cyllideb o £140,000 ar gael." |
| **Amserlen weithio** | Mae'r sefydliad sy'n lletya yn hyblyg o ran yr agwedd hon a gellir trafod hyn er mwyn sicrhau'r trefniant gorau ar gyfer y gyllideb, y sefydliad sy'n lletya, yr ymchwilydd a'r sefydliad academaidd. |

**Crynodeb o'r Gymrodoriaeth – Diben:**

Mae ymchwil wedi dangos mai Proffesiynau sy'n gysylltiedig â Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yw'r categorïau lleiaf amrywiol yn y DU.
Racial diversity in environment professions – Research | SOS-UK (Saesneg yn unig)

Gyda thrafodaethau yn y Cenhedloedd Unedig a'r cyfryngau yn tynnu sylw at y diffyg amrywiaeth yn y sector hefyd, yn enwedig yn y rolau arwain a gwneud penderfyniadau yn y sefydliadau hyn.
Does Extinction Rebellion have a race problem? | Extinction Rebellion | The Guardian (Saesneg yn unig)

Ochr yn ochr â'r trafodaethau proffil uchel hyn, mae yna ganlyniadau proffil uchel o hiliaeth gymdeithasol mewn polisi amgylcheddol hefyd, megis y ffaith bod cymdogaethau pobl dduon ac Asiaidd yn fwy tebygol o fod yn agored i ansawdd aer gwael. How racism shows up in the air, in parks, on roads, and housing | Metro News (Saesneg yn unig)

Mae'r rhain i gyd yn tynnu sylw at waith sylweddol i Lywodraeth Cymru o ran archwilio ei pholisïau amgylcheddol a newid hinsawdd i ddeall sut y gallent effeithio'n anghymesur o negyddol ar gymunedau a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru. Ar ben hyn, nid oes llawer o ddealltwriaeth o brif broblemau a phryderon y cymunedau hyn mewn perthynas â materion amgylcheddol a newid hinsawdd. Heb y ddealltwriaeth hon, nid yw polisïau ar yr amgylchedd a newid hinsawdd yn mynd i ddiwallu anghenion y cymunedau hyn yng Nghymru.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a gellir gweld crynodeb o'r ddeddf yma:
https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf
Mae'n llywio llunwyr polisi wrth gyflawni polisi mewn ffordd gyfannol, i ddiwallu anghenion y gymdeithas gyfan nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â chanllawiau ar y ffyrdd o weithio i gyflawni'r canlyniadau hyn. Fodd bynnag, mae hwn yn newid diwylliant sylweddol, ac mae swyddogion polisi'n awyddus i fabwysiadu'r dulliau hyn wrth lunio polisi. Mae ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gofyn am arloesi a dulliau newydd, dilysrwydd ac ymrwymiad i newid.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliaeth yn ddiweddar, lle mae'n amlinellu ei gweledigaeth y bydd Cymru'n wrth-hiliol erbyn 2030. Wrth wraidd y Cynllun mae cyfres o

werthoedd a diben clir, a dulliau ymgysylltu sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y rhaglen waith hon. Diben y cynllun yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig drwy fynd i'r afael â hiliaeth. Gan ddefnyddio hyn fel modd o arwain, mae swyddogion wedi mynd ati i ddechrau i ganolbwyntio gwaith tystiolaeth ar 8 maes allweddol o fywyd:

1. Hamdden – mannau gwyrdd a mynediad i gefn gwlad a mannau arfordirol.
2. Gweithleoedd, gwirfoddoli a gweithredu – gweithio ac ymwneud â newid hinsawdd, sectorau'r amgylchedd
3. Yr amgylchedd lleol – problemau amgylcheddol cymunedol fel tipio anghyfreithlon, llygredd aer, ailgylchu ac ailddefnyddio.
4. Problemau newid hinsawdd – rôl cymdeithas wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd – cefnogi gweithredu ar lefel unigol a chymunedol. Newid cyfiawn i economi sero net ac addasu i newid hinsawdd.
5. Argyfwng bioamrywiaeth – barn a blaenoriaethau ynghylch colli bioamrywiaeth yng Nghymru a thramor.
6. Bwyd a diwylliannau bwyd – profiadau o hiliaeth wrth brynu bwyd i'w fwyta gartref a thu allan i'r cartref, gwastraff bwyd ac ati.
7. Tyfu eich bwyd eich hun am resymau cymunedol, iechyd, deietegol, amgylcheddol neu newid hinsawdd. Mynediad i gynlluniau tyfu cymunedol, gerddi, mynediad at randiroedd neu erddi cymunedol.
8. Arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a rôl fodelau ar fyrddau a fforymau gwneud penderfyniadau yn y tri sector.

Pwrpas y gymrodoriaeth hon yw darparu cyngor, arweiniad a dealltwriaeth i dimau polisi a thystiolaeth i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon â gwahanol gymunedau a grwpiau mewn ffyrdd newydd ac arloesol i fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ein tystiolaeth. Mae'n ddealledig y bydd ymgysylltu a chasglu tystiolaeth yn digwydd mewn ffyrdd mae'r Llywodraeth yn llai cyfarwydd â'u defnyddio. Bydd angen i'r Cymrawd gefnogi swyddogion hefyd i ddeall yr iaith sydd ei hangen i ymgysylltu â chymunedau nad ydynt wedi arfer ag ymgysylltu â'r Llywodraeth ar faterion newid hinsawdd, yr amgylchedd a materion gwledig a'r rhwystrau mae'r cymunedau hyn yn teimlo sy'n eu hwynebu wrth geisio ymgysylltu â'r Llywodraeth.

**Amlinelliad o'r sefyllfa a'r mathau o brosiectau a gweithgareddau y gallai'r swydd ymwneud â nhw:**

Bydd y Cymrawd yn perthyn i'r gangen Dadansoddi Strategol yn Uned Dystiolaeth Strategol Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Bydd y Cymrawd yn gweithio fel aelod o'r tîm hwn. Mae'r tîm yn cefnogi ac yn cynghori timau polisi ar draws yr adran ar amrywiaeth o feysydd pwnc mewn perthynas â'r dystiolaeth. Mae'n dwyn tystiolaeth ynghyd sy'n deillio o Lywodraeth Cymru a'r byd academaidd a'i chyfosod mewn fformatau a naratifau y gall timau polisi fanteisio arnynt gydol y cylch polisi.

Bydd disgwyl i'r Cymrawd weithio gyda'r timau tystiolaeth i gyfosod allbynnau tri edefyn o ymchwil tystiolaeth gwrth-hiliaeth sydd eisoes ar y gweill:

- Adolygiad o lenyddiaeth
- Adroddiadau deialog gymunedol
- Dadansoddiad gofodol o risgiau amgylcheddol i gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru.

Bydd disgwyl i'r Cymrawd weithio gyda grŵp cynghori allanol y cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth i ddeall ac ymgysylltu â'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yma a gweithio gyda'r cynrychiolwyr allanol a'r arweinwyr polisi hyn wrth iddynt ymgymryd ag archwiliadau dwfn i'r materion allweddol ar gyfer pobl ethnig leiafrifol yn y maes hwn o fywyd.

Bydd y Cymrawd yn gweithio yn Llywodraeth Cymru a bydd yn gweithio gyda swyddogion drwy ein strwythurau tystiolaeth fewnol. Mae'r tîm Dadansoddi Strategol yn rhedeg 'Cymuned ymarfer gweithredu ar gydraddoldeb' a bydd y Cymrawd hwn yn cefnogi'r grŵp penodol hwn wrth iddo geisio gwella ei ddulliau casglu tystiolaeth i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn y maes polisi hwn. Bydd y Cymrawd yn gweithio hefyd gyda thimau ehangach y Llywodraeth sy'n gweithio yn y maes hwn, gan gysylltu â'n Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Unedau Tystiolaeth Hil ac Anabledd, ein tîm Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r grwpiau allanol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth.

Dyma'r math o waith y byddai'r Cymrawd yn rhan ohono:

- Cynghori timau sy'n ceisio gwella ymgysylltiad â phobl ethnig leiafrifol yng nghefn gwlad Cymru.
- Gweithio gyda thimau polisi a chontractwyr i wella ein dealltwriaeth o werthoedd, safbwyntiau a blaenoriaethau ar gyfer pobl ethnig leiafrifol mewn perthynas â bwyd a chynaliadwyedd.
- Gweithio gyda thimau polisi sy'n datblygu polisïau ac ymyriadau mewn cymunedau i wella amrywiaeth y rhai sy'n ymgysylltu â'r rhaglenni.
- Gweithio gyda thimau polisi ar bolisïau a rhaglenni lle rydym yn ariannu sefydliadau allanol i gynyddu amrywiaeth arweinwyr a gweithluoedd sefydliadau'r amgylchedd, newid hinsawdd a materion gwledig.
- Gweithio gyda'r rhaglen newid ymddygiad newid hinsawdd ganolog i gefnogi eu hymgysylltiad â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i gyd-gyflwyno 'Pontio teg i ddyfodol carbon isel, sy'n gadael neb ar ôl'.
- Gweithio gyda'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i sicrhau cydgysylltiad a rhannu tystiolaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Cymrawd i gael ei gysylltu â strwythurau atebolrwydd ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys y Tasglu Anabledd a'r Grŵp Atebolrwydd Allanol Gwrth-hiliaeth.

**Buddion disgwyliedig i'r ymgeisydd llwyddiannus:**

Mae hwn yn gyfle unigryw i weithio yn y Llywodraeth i wella a dylanwadu ar ganlyniadau polisi i bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru mewn perthynas â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'n cynnig cyfle i gymhwyso arbenigedd gwyddonol yn uniongyrchol i gamau gweithredu ar lawr gwlad, gan ddatblygu dealltwriaeth o gymhlethdodau cydbwyso gwahanol ganlyniadau polisi a ddymunir gan y Llywodraeth.

Fel academydd yn y llywodraeth, bydd yn rhoi cipolwg unigryw ar flaenoriaethau'r llywodraeth a sut y defnyddir tystiolaeth wrth lunio polisïau, gan alluogi gwell dealltwriaeth i'r Cymrawd a'i sefydliad wella effaith eu hymchwil.

Bydd cwmpas y gwaith yn arwain at brofiad o:

- Fewnbwn i ddatblygu polisïau sy'n dod i'r amlwg i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Mewnbwn i raglen waith sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd.
- Dealltwriaeth o'r broses o lunio polisïau a rôl tystiolaeth ynddi;
- Dylanwad uniongyrchol ar gynhyrchu polisïau, safonau a rheoliadau newydd yng Nghymru;
- Gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi a Gweinidogion;
- Cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad mewnol;
- Gweithio fel rhan o'r tîm sy'n ymgysylltu â grŵp amrywiol o randdeiliaid yn cynnwys y llywodraeth, rheoleiddwyr, diwydiant a'r trydydd sector i gyflawni newid sylweddol drwy fynd i'r afael â hiliaeth yng Nghymru.
- Deall y gwahanol fathau o rolau dadansoddi yn y llywodraeth, sut y maent yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r broses o gynllunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol:**

Fel rhan o'r Gymrodoriaeth, byddai disgwyl i chi ymgysylltu â Llywodraeth y DU, yn enwedig DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ac adrannau'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yn ogystal â chydweithwyr mewn cyrff cyhoeddus a rheoleiddio megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddai disgwyl i chi gysylltu â'r byd academaidd hefyd drwy eich rhwydweithiau eich hun a Platfform yr Amgylchedd Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd cam cyntaf y gwaith hwn yn arwain at nifer o feysydd ffocws manylach (y gallai'r un Cymrawd neu Gymrodoriaethau dilynol fwrw ymlaen â rhai ohonynt).

**Cymorth gan Lywodraeth Cymru:**

Mae'n bwysig cofio, er bod yr holl gyfyngiadau Covid-19 cyfreithiol wedi dod i ben yng Nghymru, dyw Covid-19 ddim wedi diflannu. Mae angen i ni gadw diogelwch ein staff ar flaen y gad ym mhopeth a wnawn, sy'n cynnwys ein galluogi i ymateb yn gyflym os yw lefelau Covid-19 – neu unrhyw glefyd heintus arall – yn bryder cynyddol. Rhaid i ni sicrhau bod ein swyddfeydd yn parhau i fod yn ddiogel a chynhwysol i bawb.

Mae 'Gweithio'n Glyfar' Llywodraeth Cymru yn eich cefnogi i barhau i weithio o bell tra hefyd yn galluogi pobl i ddod at ei gilydd yn y swyddfa i gysylltu a chydweithio lle mae hynny'n fuddiol.

Efallai y bydd angen mynychu cyfarfodydd ym mhrif swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, a/neu swyddfeydd rhanbarthol ledled Cymru (yn dibynnu'n rhannol ar leoliad yr ymgeisydd llwyddiannus).

Bydd mynediad at gynghorwyr, dadansoddwyr a chydweithwyr polisi perthnasol Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi'r rôl hon.

**Allbynnau'r Gymrodoriaeth:**

Yn ystod tri mis cyntaf y rôl, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddatblygu cynllun gwaith y rhaglen ac allbynnau cytunedig ar gyfer cyfnod y contract. Disgwylir y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn y rhaglen i ddarparu ar gyfer newidiadau mewn blaenoriaethau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd ac yn trafod cynnydd gyda swyddogion arweiniol.

Gallai'r ymgeisydd llwyddiannus fynd i'r afael â nifer o heriau, er enghraifft:

1. Datblygu dealltwriaeth o anghenion ymchwil yn y maes hwn ar gyfer datblygiad academaidd yn y dyfodol.
2. Ymchwil i strategaethau ar gyfer cynnwys pobl mewn sgyrsiau am hiliaeth a gwrth-hiliaeth.
3. Ymchwil i ddeall hiliaeth strwythurol a sut mae'r agweddau hynny'n dod i'r amlwg.
4. Troi anghenion polisi yn gwestiynau ymchwil, gan ddiffinio ac ailddiffinio lle bo angen;
5. Datblygu technegau gwyddorau cymdeithasol arloesol ar gyfer ymgysylltu â phobl heb gynrychiolaeth ddigonol.

## SUT I YMGEISIO

Bydd y broses hon o benodi Cymrodoriaeth yn cael ei rheoli gan Platfform yr Amgylchedd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Dylai ymgeiswyr gyflwyno'r pedair dogfen ganlynol i flwch negeseuon e-bost info@epwales.org.uk

1. Llythyr eglurhaol (un ochr A4 ar y mwyaf) yn amlinellu pam rydych yn gwneud cais am y swydd a beth y byddwch yn ei gyfrannu at y rôl.
2. Cynnig prosiect (tair ochr A4 ar y mwyaf) yn amlinellu sut rydych yn rhagweld y gymrodoriaeth, y cyfleoedd a'r meysydd ymchwil y byddech yn ceisio eu datblygu.
3. Curriculum Vitae (dwy ochr A4 ar y mwyaf).
4. Llythyr gan eich sefydliad academaidd. Mae angen iddo ddatgan sut y bydd yn cefnogi eich rhyddhau o ddyletswyddau addysgu a gweinyddol, yn ôl yr angen, a'i fod yn derbyn amodau'r cynllun yn ffurfiol. Cynnwys manylion y pris a'r costau.

**Commented [RS(EEeas)1]:** Andy, please confirm this is the correct email address to use and delete this comment before publishing.

Dyddiadau cau:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r dogfennau uchod yw 14:00 23 Hydref 2023 info@epwales.org.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau 14:00 6 Hydref 2023 ann.humble@gov.wales.

Commented [RS(EEeas)2]: Andy, as above.

Meini prawf:

- Ymwybyddiaeth o ddatganoli a thirwedd polisi Cymru
- Dealltwriaeth o'r rhwystrau a grëwyd gan strwythurau systemig sy'n wynebu grwpiau gwarchodedig
- Profiad o ymgymryd ag ymchwil ac ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig
- Y gallu i gynllunio a chyflawni prosiectau ymchwil gwyddorau cymdeithasol
- Dealltwriaeth o'r protocolau a'r cyfyngiadau wrth ymgymryd ag ymchwil gymdeithasol a'r ystyriaethau penodol sydd eu hangen wrth ymgysylltu â phobl ethnig leiafrifol
- Y gallu i ysgrifennu adroddiadau cryno
- Y gallu i gyflwyno canfyddiadau ymchwil yn gryno ac yn glir ar gyfer cynulleidfa anarbenigol
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn fantais ond nid yw'n hanfodol.

Gall ymgeiswyr fod ar unrhyw gam yn eu gyrfa ond disgwylir iddynt fod â PhD erbyn dyddiad cychwyn y rôl Gymrodoriaeth, neu allu dangos profiad proffesiynol cyfatebol a gafwyd mewn sefydliad rhanddeiliaid. Mae ymgeiswyr sydd â swydd academaidd barhaol (neu gyfwerth mewn sefydliadau heblaw prifysgolion) yn gymwys hefyd.

## Ymrwymiad Llywodraeth Cymru

Cydraddoldeb:
Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol a chynyddu amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru drwy ddileu rhwystrau a chefnogi ein holl staff i gyrraedd eu potensial. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Ein polisi yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal i bob agwedd ar ein busnes, gan gynnwys penodiadau. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas gyfartal/yr un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, anabledd, hil, crefydd neu gred neu feichiogrwydd/mamolaeth.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol, neu os ydych am drafod sut y byddem yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, cysylltwch â'r Pennaeth Dadansoddi Strategol, Ann Humble, drwy e-bost: ann.humble@llyw.cymru cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych, cyn y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau 14:00 6 Hydref 2023.

Y Gymraeg:
Mae Llywodraeth Cymru'n sefydliad dwyieithog ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn annog a chefnogi'r defnydd o sgiliau Cymraeg unigolion.

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):
Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ac yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni: https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn ystod y broses ddethol hon yn cael ei defnyddio at ddibenion symud eich cais yn ei flaen, neu i gyflawni gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol os oes angen.

## Y BROSES ASESU

Bydd y broses asesu ar gyfer ceisiadau i'r alwad hon yn cael ei hystyried gan ddefnyddio proses asesu dau gam.

Bydd yr holl geisiadau a dderbynnir yn cael eu hasesu gan arbenigwyr annibynnol mewn panel sifftio. Bydd panel arbenigol o ymchwilwyr a defnyddwyr y Llywodraeth yn adolygu ceisiadau a gyflwynir ac yn gwneud argymhellion ar y rhai sy'n addas i symud ymlaen i gam dau. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod a fydd eu cais yn symud ymlaen i'r ail gam ai peidio.

Ar gyfer ceisiadau a fydd yn symud ymlaen i'r ail gam, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i banel cyfweld, lle byddant yn cael cyfle i gyflwyno eu cynnig cymrodoriaeth a thrafod ac ateb cwestiynau gan y panel. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy blatfform Microsoft Teams. Rhagwelir y bydd y cyfweliadau rhithwir hyn yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau ar 13 Tachwedd 2023.

Mae manylion y meini prawf asesu i'w defnyddio isod:

- Rhagoriaeth y cynnig – ansawdd a newydd-deb y synthesis ymchwil arfaethedig, y cyfieithiad ymchwil neu'r gweithgareddau ymgysylltu cymunedol
- Addasrwydd yr ymgeisydd – profiad perthnasol a photensial yr ymgeisydd, budd posibl y gymrodoriaeth i'w ddatblygiad gyrfa/pontio
- Addasrwydd ar gyfer y cynllun

Bydd adborth yn cael ei roi i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn dilyn y cam asesu pan wneir penderfyniad ynghylch eu cais.

Bydd Llywodraeth Cymru’n defnyddio argymhellion y panel cyfweld, ynghyd â'r gofynion cyffredinol a'r gyllideb sydd ar gael wrth wneud y penderfyniadau cyllido terfynol.

Mae Llywodraeth Cymru’n cadw'r hawl i ddefnyddio'r argymhellion i greu portffolio cytbwys ar gyfer y cyfle Cymrodoriaeth hwn.

Bydd angen cynnal Gwiriadau Fetio Llywodraeth Cymru gyda'r ymgeisydd llwyddiannus cyn gwneud unrhyw benodiad.

## I GAEL RHAGOR O WYBODAETH A DARLLEN CEFNDIR:

Cysylltwch â'r Pennaeth Dadansoddi Strategol, Ann Humble, drwy e-bost: ann.humble@llyw.cymru cyn y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau 14:00 6 Hydref 2023.

Dogfennau defnyddiol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol l LLYW.CYMRU

https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel

https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur

Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth - GOV.UK (www.gov.uk)

Uned Tystiolaeth Strategol
Strategic Evidence Unit

Codi hyder yn sail tystiolaeth ni
Building confidence in our evidence base

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Developing Anti-racism Action in Climate Change, Environment and Rural Affairs Policy Fellowship

Welsh Government are inviting proposals for a Fellowship role to work within the Climate Change, Environment and Rural Affairs policy areas to support policy officials to develop an action plan to cover Climate change issues, Environment and Rural Affairs. There are large evidence gaps in respect of ethnic minority people's experience of racism in climate change, environment and rural affairs spaces, their ambitions and views on what would make this part of life more inclusive. The work of this fellowship will be working with teams to understand the way structural racism inherent in many of our everyday practices in evidence gathering and how to change these to hear ethnic minority voices. The role will also be working with policy teams where there is significant evidence already available through our own work and more widely, to understand the aspects that policy teams need to consider to make their policy development and delivery more inclusive.

The Welsh Government launched its Anti-Racist Wales Action Plan (ARWAP) in June 2022[2]. Climate Change, Environment and Rural Affairs were not included in the original evidence research for the first iteration of the plan. An evidence programme of work is underway, covering Climate Change, Environment and Rural affairs issues, this Fellowship would be part of the programme to support policy teams in further development of the evidence base and support thinking in developing and implementing an Anti-racism Action Plan covering these policy areas. The Anti-racism Action Plan has developed a process for delivering a co-produced action plan, this Fellowship will be offering a trusted voice, advising Welsh Government officials as they move through the process.

This role will be a Strategic Fellowship, working across the department, advising policy and evidence colleagues on a variety of areas in respect Anti-racism, depending on the projects the fellow maybe advising on academic techniques, rigour and new approaches to evidence gathering or advising on the current thinking, language and providing evidence synthesis on many and varied projects.

This position will work in a multidisciplinary evidence team supporting a wider programme to contribute to delivering robust, evidence-based decisions within Welsh environment. The team works through research to promote collaboration between policy, academia, stakeholders and citizens to deliver desired policy outcomes.

We are looking for people who can bring not only their academic knowledge expertise to Welsh Government, but also different lived experiences to our decision making. While being able to thrive in collaborative teams that will help change the way we think. We are looking for applications from diverse candidates who can bring fresh skills, insight and perspectives to our work.

Applications are invited for proposals from Post-doctorate Researchers to Senior Researchers and the role is open to candidates to create their own proposal for how a placement may function. The Welsh Government is able to support this as a part time or full time role.

[2] Anti-racist Wales Action Plan | GOV.WALES

All applicants must be employed by an eligible host organisation for the duration of the Fellowship to receive funding. Eligible host organisations include UK Higher Education Institutes, eligible Independent Research Organisations or Public Sector Research Establishments (PSREs).

| HOST ORGANISATION DETAILS AND OUTLINE OF ROLE ON OFFER: | |
|---|---|
| **Organisation name** | Welsh Government - Environment and Rural Affairs (ERA) |
| **Role description** | Developing Anti-racism Action in Climate Change, Environment and Rural Affairs Policy Fellowship |
| **Proposed start date** | 1 December 2023 |
| **Duration of placement** | 12-18 months |
| **Funding** | Welsh Government will provide funding equivalent to candidate's current salary with their academic institution. This is subject to agreement of costings submitted. Funding is available up to a maximum of £140,000. |
| **Working schedule** | The host is flexible regarding this aspect and can be negotiated to ensure best fit for the budget, the host, researcher and the academic institution. |

**Summary of the Fellowship – Purpose:**

Research has demonstrated that Professions associated with Climate Change, Environment and Rural Affairs are the least diverse categories in the UK. Racial diversity in environment professions – Research | SOS-UK

With discussions at the UN and the media also highlighting the lack of diversity in the sector, particularly in the decision making and leadership roles in these organisations.
Does Extinction Rebellion have a race problem? | Extinction Rebellion | The Guardian

Alongside these high profile discussions there are also high profile outcomes of societal racism in environmental policy that emerge, such as the issue that black and Asian neighbourhoods are more likely to be subject to poor air quality. How racism shows up in the air, in parks, on roads, and housing | Metro News

These all point to a substantial job of work for the Welsh Government to examine its environment and climate change policies to understand how they may disproportionately negatively impact black, Asian and Ethnic Minority communities and people in Wales. Added to which there is little understanding of the primary issues and concerns of these communities in respect of environmental and climate change issues. Without this insight environment and climate change policies are not going to meet the needs of these communities in Wales.

Wales has ground breaking legislation in the form of the Well-being of Future Generations Act (2015), a summary of the act can be found here: well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (gov.wales) that guides policy makers in delivering policy in a holistic way, to meet the needs of all of society now and for the future, along with guidance on the ways of working to deliver these outcomes. However, this is a substantial culture change, policy officials are keen to adopt these approaches in policy making, engaging with under-represented groups requires innovation and new approaches, authenticity and commitment to change.

In addition the Welsh Government has recently published its Anti-racism Wales Action Plan (ARWAP) where the Welsh Government outlines its vision that Wales will be anti-racist by 2030. At it's heart, the ARWAP has a set of values and clear purpose and methods of engagement that provide the framework for this work programme. The plan's purpose is to make a measurable difference to ethnic minority people's lives by tackling racism. Using this as a guding star, officials have initially focussed evidence work on eight key areas of life:

1. Recreation – green space and access to the countryside and coastal areas.
2. Workplaces, volunteering and activism - working and engaging in the climate change, environment sectors.

3. Local Environment – Community Environmental issues such as fly tipping, air pollution, recycling and reusing.
4. Climate Change Issues – The role of society in tackling climate change – supporting action at an individual and community level. A just transition to a net zero economy and climate change adaptation.
5. Biodiversity Crisis – views and priorities around biodiversity loss in Wales and abroad.
6. Food and Food Cultures – experiences of racism in food purchasing for home consumption and outside the home, food waste etc.
7. Growing your own food for community, health, dietary choice, environmental or climate change reasons. Access to community growing, gardens, access to allotments or community gardens.
8. Leadership, representation and role models on Boards and decision-making forums in the three sectors.

The purpose of this fellowship is to provide advice, guidance and understanding to policy and evidence teams to enable them to engage meaningfully with different communities and groups in new and innovative ways to address this shortfall in our evidence. It is understood that engagement and evidence gathering will be in ways that Government are less familiar with using. The Fellow will also need to be supporting officials in understanding the language needed to engage with communities not used to engaging with Government on Climate Change, Environment and Rural Affairs matters and the barriers these communities feel to engaged with Government.

**Outline of position and types of projects and activities the position could be engaged with:**

The Fellow will be embedded within the Strategic Analysis branch within the ERA Strategic Evidence Unit. The Fellow will work as a member of this team. The team supports and advises policy teams across the department on a variety of subject areas in respect of the evidence. Drawing together evidence derived by the Welsh Government and academia and synthesising it into formats and narratives that policy teams can draw on throughout the policy cycle.

The Fellow will be tasked with working with the evidence teams to synthesis the outputs of three strands of Anti-racism evidence research already in train:

- Lierature Review
- Community Dialogue reports
- Spatial Analysis of environmental risks for ethnic minority communities in Wales.

The Fellow will be tasked with working with the Anti-racism Action Plan external advisory group to understand and engage with the evidence available so far and work with these external representatives and policy leads as they undertake deep dives into the key issues for ethnic minority people in this area of life.

The Fellow will be working inside the Welsh Government and will be working with officials via our internal evidence structures. The Strategic Analysis team runs a 'Action on equality community of practice' this Fellow will support this particular group as they seek to improve their evidence approaches to develop the evidence base for delivering the Anti-racism Action Plan in this policy area. The post will also work with wider Government teams working in this area, linking in with our Knowledge and Analytical Services, Race and Disability Evidence Units, our Anti-Racist Wales Action Plan team and the external groups associated with the delivery of the Anti-racist Action Plan.

The type of work the Fellow would be involved with:

- Advising teams seeking to improve engagement with ethnic minority people in rural Wales.
- Working with policy teams and contractors to improve our understanding of values, views and priorities for ethnic minority people in respect of food and sustainability.
- Working with policy teams developing policies and interventions in communities to improve the diversity of those engaged in the programmes.
- Work with policy teams on policies and programmes where we fund external organisations to increase the diversity of leadership and workforces in environment, climate change and rural affairs organisations.

- Work with the central climate change behaviour change programme to support their engagement with under-represented groups to co-deliver 'a Just transition to a low carbon future, that leaves nobody behind'.
- Work with the Equality, race and Disability Evidence Units to ensure evidence co-ordination and sharing. This will enable the Fellow to be linked to wider Government accountability structures including the Disability taskforce and the Anti-racism External Accountability Group.

**Expected benefits for successful applicant:**

This is a unique opportunity to work within Government to influence and improve policy outcomes for Black, Asian and Minority Ethnic people in Wales in respect of the climate and nature emergencies. It offers the opportunity to directly apply scientific expertise to actions on the ground, whilst developing an insight into the complexities of balancing different policy outcomes desired by Government.

As an embedded academic in government, it will give a unique insight into government priorities and how evidence is used on policy making, enabling greater insight for the Fellow and their institution to improve the impact of their research.

The scope of work will lead to experience of:

- Input into emerging policy development to improve outcomes for under-represented groups
- Input into a programme of work simultaneously tackling the climate and nature crises.
- An understanding of the policy making process and the role of evidence within it;
- Direct influence on the generation of new policies, standards and regulations in Wales;
- Working with policy decision makers and Ministers;
- Opportunities for in-house training and development;
- Working as part of the team engaging with a diverse group of stakeholders from government, regulators, industry and the third sector in delivering a substantial change by tackling racism in Wales.
- Understanding the different types of analytical roles in government, how they support and work with each other to support the policy design and decision-making process.

**External Stakeholder Engagement:**

As part of the Fellowship you would be expected to engage with UK Government, particularly DEFRA (Department for Environment, Food & Rural Affairs) and Devolved Administration departments as well as colleagues in public and regulatory bodies such as NRW (Natural Resources Wales).

Liaison with academia via you own networks and the Environment Platform Wales (EPW) would also be expected. We anticipate that the first phase of this work will lead to a number of more detailed areas of focus (some of which may be taken forward by the same Fellow or subsequent Fellowships).

**Welsh Government (WG) support:**

It's important to remember that although all legal Covid-19 restrictions have ended in Wales, Covid-19 hasn't gone away. We need to keep the safety of our staff at the forefront of everything we do, which includes enabling us to respond quickly if levels of Covid-19 – or any other infectious disease – become an increasing concern. We must ensure that our offices remain a safe and inclusive space for everyone.

Welsh Government 'Smart Working' supports staff to carry on working remotely while also enabling people to come together in an office environment to connect and collaborate where that is beneficial.

Attendance at meetings in the main Welsh Government office in Cathays Park, Cardiff, and/or regional office locations across Wales (partly depending on the successful candidate's location) may be required.

| |
|---|
| Access to relevant WG advisors, analysts and policy colleagues will be available to support this role. |
| **Fellowship outputs:** |
| In the first 3 months of the role, the candidate will be expected to develop a programme plan of work and agreed outputs for the contract period. It is expected there will be a certain amount of flexibility in the programme to accommodate priority shifts. The successful candidate will report and discuss progress with lead officials.<br><br>The successful candidate could address a number of challenges, for example:<br><br>1. Developing an understanding of research needs in this area for future academic development.<br>2. Research into strategies for engaging people in conversations about racism and anti-racism.<br>3. Research into understanding structural racism and how the manifests.<br>4. Translating policy needs into research questions, defining and re-defining where necessary.<br>5. Developing innovative social science techniques for engaging with under-represented people. |

## HOW TO APPLY

This Fellowship appointment process will be managed by Environment Platform Wales on behalf of Welsh Government. Applicants should submit the following 4 documents to info@epwales.org.uk

1. A covering letter (maximum one side of A4) outlining why you are applying for the post and what you will bring to the role.
2. Project proposal (maximum three sides of A4) outlining how you envision the fellowship, the opportunities and the areas of research you would seek to develop.
3. Curriculum Vitae (maximum two sides of A4).
4. A letter from your academic institution. This needs to state how it will support your release from teaching and administrative duties, as necessary, and provide formal acceptance of the conditions of the scheme. Include details of price and costings.

Deadlines:

The deadline for submitting the above documentation is 14:00 23 October 2023 to info@epwales.org.uk.

Question deadline to ann.humble@gov.wales is 14:00 6 October 2023.

Criteria:

- Awareness of Welsh policy landscape and devolution.
- Understanding of the barriers created by systemic structures faced by protected groups.
- Track record in undertaking research and engagement with protected groups.
- Ability to design and deliver social science research projects.
- Understanding of the protocols and constraints in undertaking social research and the particular considerations needed when engaging with ethnic minority people.
- Ability to write concise reports.
- Ability to present research findings succinctly and clearly for a non-specialist audience?
- Ability to communicate in Welsh an advantage but not essential.

**Commented [RS(EEeas)3]:** Andy I have put this generical EPW mailbox inhere, but updated as you see fit and remove this comment before publishing.

**Commented [RS(EEeas)4]:** Andy, as above.

Applicants can be at any career stage but are expected to have a PhD by the start date of the Fellowship position, or be able to demonstrate equivalent professional experience gained in a stakeholder organisation. Applicants with a permanent academic position (or equivalent in institutions other than universities) are also eligible.

| Welsh Government Commitment |
|---|

Equality:
We are committed to being an anti-racist organisation and increasing diversity in the Welsh Government by removing barriers and supporting all our staff to reach their potential. We are committed to recruiting Black, Asian and Minority Ethnic people and disabled people who are currently under-represented in Welsh Government.

It is our policy to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of our business including appointments. We welcome applications from individuals regardless of age, marriage (including equal/same sex marriage) and civil partnership, sexual orientation, sex, gender identity, disability, race, religion or belief or pregnancy/maternity.

If you have an impairment or health condition, or use British Sign Language and need to discuss reasonable adjustments, or wish to discuss how we will support you if you are to be successful, please contact Head of Strategic Analysis Ann Humble by email: ann.humble@gov.wales as soon as possible to discuss your requirements and any questions you may have, before the Question deadline 14:00 6 October 2023.

Welsh Language:
The Welsh Government is a bilingual organisation and Welsh language skills are considered an asset to the organisation. We encourage and support the use of individuals Welsh language skills.

General Data Protection Regulations (GDPR):
This privacy notice tells you what to expect when you contract the Welsh Government and provide us with your personal information: https://gov.wales/welsh-government-privacy-notice#section-8567 All of the information you provide during this selection process will only be used for the purpose of progressing your application, or to fulfil legal or regulatory requirements if necessary.

## ASSESSMENT PROCESS

The assessment process for applications to this call will be considered using a two-stage assessment process.

All applications received will be assessed by independent experts at a sift panel. An expert panel of Government researchers and users will review submitted applications and make recommendations on those suitable to progress to stage two. Applicants will be notified whether or not their application will progress to the second stage.

For applications put forward to the second stage the applicants will be invited to an interview panel, where they will have the opportunity to present their Fellowship proposal and discuss with and answer questions from the panel. This will be undertaken via the Microsoft Teams platform. It is anticipated that these virtual interviews will take place the week commencing 13 November 2023.

The assessment criteria to be used are detailed below:

- Excellence of Proposal – quality and novelty of the proposed research synthesis, research translation or community engagement activities
- Suitability of Applicant – relevant experience and potential of the applicant, potential benefit of fellowship for their career development/transition
- Fit to Scheme

Feedback will be provided to both successful and unsuccessful applicants following the stage of assessment at which a decision is made concerning their application.

WG will use the recommendations of the interview panel along with the overall call requirements and the available budget in making the final funding decisions.

WG reserve the right to use the recommendations to create a balanced portfolio for this Fellowship opportunity.

WG Vetting Checks will be required to be carried out with the successful candidate prior to any appointment being made.

## FOR FURTHER INFORMATION AND BACKGROUND READING:

Please contact Head of Strategic Analysis Ann Humble by email: ann.humble@gov.wales before the Question Deadline 14:00 6 October 2023.

Useful documents to consider (not exhaustive):

Anti-racist Wales Action Plan | GOV.WALES

https://gov.wales/low-carbon-delivery-plan

https://gov.wales/nature-recovery-action-plan

Government Analysis Function - GOV.UK (www.gov.uk)